# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO** | **PLANNING POLICY COMMITTEE** |
| **DYDD MERCHER, 12 GORFFENNAF 2023 am 12.30 o'r gloch yp** | **WEDNESDAY, 12 JULY, 2023 at 12.30 p.m.** |
| **CYFARFOD HYBRID - YSTAFELL BWYLLOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | **HYBRID MEETING – COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY THROUGH ZOOM** |

| | | |
|---|---|---|
| **Swyddog Pwyllgor** | **Mrs Mairwen Hughes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grŵp Annibynnol (The Independent Group)**

Ieuan Williams

**Annibynnwyr Môn (Anglesey Independents)**

Robert Llewelyn Jones, Liz Wood

**Welsh Labour / Llafur Cymru**

Pip O'Neill

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

T Ll Hughes MBE, John Ifan Jones, Jackie Lewis, Llio Angharad Owen, Nicola Roberts, Ken Taylor a Robin Williams

**R H A G L E N**

1 **ETHOL CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd ar gyfer y Pwyllgor Polisi Cynllunio.

2 **ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-gadeirydd ar gyfer y Pwyllgor Polisi Cynllunio.

3 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

4 **DIWEDDARIAD AR SEFYLLFA TIM POLISI CYNLLUNIO NEWYDD A PHARATOI CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Polisi Cynllunio.

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Polisi Cynllunio |
| Dyddiad: | 12 Gorffennaf 2023 |
| Pwnc: | Diweddariad ar sefydlu Tîm Polisi Cynllunio newydd a pharatoi Cynllun Datblygu Lleol newydd |
| Aelod(au) Portffolio: | Cyng. Nicolas Roberts (Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd) |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Christian Branch<br>Pennaeth y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | John I. Williams<br>Rheolwr Polisi Cynllunio<br>johnwilliams2@ynysmon.llyw.cymru |
| Aelodau Lleol: | Perthnasol i bob Aelod Etholedig |

**1.0 Pwrpas yr adroddiad**

1.1 Paratowyd yr adroddiad hwn er mwyn rhoi diweddariad ar y sefyllfa o ran recriwtio i'r Tîm Polisi Cynllunio newydd a goblygiadau hynny ar y dasg o baratoi cynllun datblygu lleol newydd (CDLl) ar gyfer Ynys Môn.

**2.0 Cefndir**

2.1 Yn dilyn diddymu'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd pan ddaeth y cytundeb cydweithio i ben ym mis Mawrth 2023, mae Cyngor Sir Ynys Môn bellach yn gyfrifol am baratoi ei Gynllun Datblygu Lleol ei hun unwaith eto.

2.2 Er bod nifer o'r swyddi wedi cael eu hysbysebu ddwywaith, nid yw'r broses i benodi i'r Tîm Polisi newydd wedi bod yn llwyddiannus hyd yn hyd.

2.3 Trosglwyddodd un swyddog i'r Tîm drwy drosglwyddiad TUPE, ac fe gychwynnodd yn y swydd ar 1 Ebrill 2023. Wedi hynny penodwyd Rheolwr Uned ar secondiad am gyfnod o 12 mis, a gychwynnodd ym mis Ebrill 2023, a bydd y sefyllfa hon cael ei hadolygu cyn i gyfnod cychwynnol y secondiad ddod i ben.

## 3.0 Adnoddau staff

3.1 Mae angen y staff canlynol ar gyfer yr Uned:

- Rheolwr Polisi Cynllunio (Gradd 9)
- Uwch Swyddog Polisi Cynllunio (Gradd 7)
- 2x Swyddog Polisi Cynllunio (Gradd 6)
- Swyddog Polisi Cynorthwyol (Gradd 4)

Yn dilyn hynny nodwyd bod angen Cydlynydd Her Tai Lleol (Gradd 7). Ar wahân i'r swydd Rheolwr Uned ac un Swyddog Polisi, mae'r pedair swydd arall yn dal i fod yn wag.

3.2 Oherwydd y diffyg staff mae'r Gwasanaeth yn bwriadu cynnal ymgyrch recriwtio arall i geisio denu unigolion profiadol a medrus.

3.3 Bwriedir hysbysebu'r swyddi'n ehangach mewn cylchgronau proffesiynol, trwy hysbysebion uniongyrchol, targedu prifysgolion a gwneud mwy o ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol. Yn dilyn trafodaethau, penderfynwyd cynhyrchu pecyn cais i hyrwyddo'r rolau a'u manteision ymhellach.

3.4 Mae'n hanfodol bod gennym Dîm addas a medrus er mwyn sicrhau bod camau amrywiol y gwaith o baratoi'r cynllun yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni cytunedig a bod ein dyletswyddau statudol yn cael eu cyflawni'n foddhaol.

3.5 Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaeth ynghanol proses gaffael i geisio dod o hyd i gwmni ymgynghorol profiadol a all ddarparu cymorth proffesiynol i'r Swyddogaeth Cynllunio o dan gytundeb Fframwaith. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi cyfrifoldebau cynllunio statudol y Cyngor.

## 4.0 Camau paratoi'r cynllun

4.1 Mae'r gwaith o baratoi'r cynllun yn cynnwys cwrdd â nifer o wahanol gerrig milltir. Rhaid crynhoi cerrig milltir o'r fath mewn Cytundeb Cyflawni ac mae'n rhaid i'r cytundeb hwnnw gael ei gytuno gan Lywodraeth Cymru (LlC). Wedi iddo gael ei gytuno, rhaid glynu'n gaeth wrth y rhaglen ar gyfer cyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol a bydd rhaid i unrhyw wyriadau gael eu cytuno gan Lywodraeth Cymru. Mae amserlen ddangosol ar gael yn Atodiad 1. Yn gryno, mae'r camau fel a ganlyn:

- Cytundeb Cyflawni a Chynllun Cynnwys Cymunedau (CIS)
- Cynllun Cyn-adneuo
- Cynllun Adneuo
- Adneuo ac Archwilio'r Cynllun yn Gyhoeddus
- Adroddiad yr Arolygydd a Mabwysiadu

4.2 Bydd Adroddiad yr Arolygydd yn dilyn yr Archwiliad a rhaid mabwysiadu'r cynllun cyn pen 8 wythnos ar ôl derbyn Adroddiad yr Archwilydd.

## 5.0 Beth sy'n gyraeddadwy gyda'r addodau sydd ar gael?

5.1 Yn sgil y diffyg staff, yr amserlen ddangosol ar gyfer cwblhau'r gwahanol gamau ac yn dilyn trafodaethau diweddar â swyddogion o dîm polisi LlC, fel y nodir yn 7.1, bydd y gwaith o baratoi ac adneuo'r Cynllun Cyflawni a'r Cynllun Cynnwys Cymunedau yn amodol ar gael digon o adnoddau i allu parhau â'r gwaith wedi i'r Cynllun Cyflawni gael ei gytuno.

5.2 Gan fod y cam nesaf, sef paratoi'r cynllun cyn-adneuo, yn debygol o fod yn fwy llafurus nag unrhyw gam arall, mae'r diffyg staff, yn anochel, yn mynd i amharu ar y broses. O'r herwydd, mae'n hanfodol bod digon o staff a/neu adnoddau ar gael er mwyn bwrw ymlaen â hyn ac, yn wir, camau dilynol y broses.

## 6.0 Defnyddio cymorth allanol

6.1 Os na fydd yr ymgyrch recriwtio'n llwyddiannus, naill ai'n rhannol neu'n llawn, bydd rhaid ystyried comisiynu cymorth allanol er mwyn gwneud iawn am y diffyg adnoddau. Pe bai'n rhaid gwneud hyn, awgrymir bod contractau'n cael eu dyrannu ar gyfer y gwahanol gamau sydd wedi'u nodi yn yr amserlen, er enghraifft:

- Cytundeb Cyflawni a Strategaeth Cynnwys Cymunedau;
- Papur ar weledigaeth ac opsiynau strategol;
- Paratoi papurau cefndirol; a
- Cynnal y prif asesiadau effaith (AS/AES, CRT ac ati.)

## 7.0 Cynnydd cychwynnol

7.1 Cyn i'r trefniadau cydweithio ddod i ben, roedd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi dechrau paratoi Cytundeb Cyflawni drafft ar gyfer Ynys Môn. Mae'r ddogfen yn darparu man cychwyn ond mae bylchau ynddi y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy, er enghraifft, mewn perthynas â'r trefniadau corfforaethol ar gyfer adrodd a chytuno ar gynnydd.

7.2 Cynhaliwyd cyfarfod â swyddogion perthnasol o LlC yn ddiweddar i drafod y sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â'r polisi cynllunio. Cydnabuwyd bod y Cyngor Sir yn wynebu sefyllfa heriol ond bod uned polisi cynllunio LlC ar gael i drafod sut i fwrw ymlaen â'r broses o baratoi a chyflwyno cynllun drafft. O ran y garreg filltir gyntaf, sef cytuno ar y cytundeb cyflawni, fe'i gwnaed yn glir na ddylid cyflwyno cytundeb o'r fath i'w ystyried heb ffordd o gyflawni'r rhaglen gytunedig. Fel y nodwyd ym mharagraff 4.1, mae'r amserlen ddangosol yn **Atodiad 1** yn amlygu'r gwahanol gamau fel rhan o'r broses o baratoi'r cynllun

## 8.0 Camau gweithredu pellach

8.1 Yn sgil yr amgylchiadau presennol mae'r camau gweithredu canlynol ar y gweill:

- Bwrw ymlaen â'r broses recriwtio dargedig i recriwtio unigolion cymwys fel bod gan y tîm y gallu i gyflawni cynllun datblygu cadarn ac effeithiol.
- Ymgysylltu ag arbenigwyr yn y sector breifat a all ymgymryd â gwahanol gamau'r broses o baratoi'r CDLl (bydd y Rheolwr Polisi Cynllunio'n rheoli'r contractau hyn).
- Datblygu Cynllun Cyflawni drafft y gellir ymgynghori arno a'i adneuo.
- Darparu rhaglen hyfforddi a datblygu i aelodau etholedig yn ogystal â hyfforddiant ar gyfer prif/uwch swyddogion sydd ddim yn ymwneud â Chynllunio. Mae hyn er mwyn rheoli disgwyliadau a chael trafodaethau adeiladol ynglŷn â'r hyn y gall CDLl fynd i'r afael ag o a'i gyflawni.

**Atodiad 1**

**CDLl amserlen ddangosol (drafftiwyd cyn dod a'r trefniadau gweithio ar y cyd i ben)**

| Rhif y Cam | Cam | Amserlen | Cyfnodau Ymgynhoriad Allweddol |
|---|---|---|---|
| **Diffiniol** | | | |
| 1 | Cytundeb Cyflawni<br>- Paratoi<br>- Ymgynhori efo rhanddeiliad allweddol<br>-Cyflwyno | Ebrill 2023 – Hydref 2023 | Ymgynhoriad Cyhoeddus Mehefin/Gorffennaf 2023<br><br>Cymeradwyaeth gan y Cyngor Hydref 2023<br><br>Cyflwyno i Lywodraeth Cymru Tachwedd 2023 |
| 2 | Cyn adneuo – paratoi, cynnwys ag ymgynhori<br><br>- Papur Gweldigaeth ag opsiynnau strategol<br>- Galw am safleoedd<br><br>Angen Papurau Cefndir Penodol | Rhagfyr 2023 – Mai 2025 | Galw am safleoedd Rhagfyr 2023 am o leiaf 6 wythnos<br><br>Mawth 2024 – Ebrill 2024 |
| | Ymgynghoriad Cyn Adneuo Strategaeth a Ffrir<br>Asesiadau Effaith AC/AAS a HRA | Rhagfyr 2023 – Mai 2025 | Rhagfyr 2024 to Ionawr 2025 |
| 3 | Cynllun Adnau | Mehefin 2025 – Mai 2026 | Ymgynhoriad Cyhoeddus Medi/Hydref 2025 |
| **Dangosol** | | | |
| 4 | Cyflwyno | Mehefin 2026 | n/a |
| 5 | Archwiliad | 11 mis o cyflwyno (targed) | Gellir fod ymgynhoriad pellach yn dilyn yr archwiliad |
| 6 | Adroddiad yr Arolygydd | Ebrill 2027 | |
| 7 | Adoption | Mai 2027 (rhaid mabwysiadau o fewn o fewn 8 wythnos o derbyn yr adroddiad) | n/a |

This page is intentionally left blank